

LIC25-49

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r
A449 (Ffordd Osgoi Rhaglan, Sir
Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya
Dros Dro) 2025

Gwnaed 18 Medi 2025
Yn dod i rym 26 Medi 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40 a'r darn perthnasol o gefnffordd yr A449, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd am fod perygl tebygol i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A449 (Ffordd Osgoi Rhaglan, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Medi 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri a chefnffordd yr A449 Casnewydd i Gaerwrangon;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WG25-49

ROAD TRAFFIC, WALES

The A40 & A449 Trunk Roads
(Raglan Bypass, Monmouthshire)
(Temporary 50 mph Speed Limit)
Order 2025

Made 18 September 2025
Coming into force 26 September 2025

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 trunk road and the relevant length of the A449 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be restricted because of the likelihood of danger to the public.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A40 & A449 Trunk Roads (Raglan Bypass, Monmouthshire) (Temporary 50 mph Speed Limit) Order 2025 and this Order comes into force on 26 September 2025.

Interpretation

2. In this Order—
"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means—

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw’r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal dros dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk roads” (“*y cefnffyrdd*”) means the A40 Raglan to Llandovery trunk road and the A449 Newport to Worcester trunk road.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Suspension

5. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

18 Medi 2025



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

18 September 2025



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

Cerbyttfordd gylchredol Cylchfan Rhaglan, Sir Fynwy.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbyttfordd tua'r de yr A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan hyd at ei chyffordd â Chylchfan Rhaglan, Sir Fynwy.

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Rhaglan hyd at ei chyffordd â cherbyttfordd tua'r de yr A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gogledd yr A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy sy'n ymestyn o'i thrwyniad â phrif gerbyttfordd tua'r gogledd yr A40/A449 hyd at ei chyffordd â cherbyttfordd tua'r gorllewin yr A40.

SCHEDULE

The circulatory carriageway of Raglan Roundabout, Monmouthshire.

The length of the westbound carriageway of the A40 trunk road that extends from its junction with the A449 southbound carriageway at Raglan Interchange to its junction with Raglan Roundabout, Monmouthshire.

The length of the eastbound carriageway of the A40 trunk road that extends from its junction with Raglan Roundabout to its junction with the A449 southbound carriageway at Raglan Interchange, Monmouthshire.

The length of the A449 northbound exit slip road at Raglan Interchange, Monmouthshire that extends from its nosing with the main A40/A449 northbound carriageway to its junction with the A40 westbound carriageway.